

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	18/12/2023
Teitl:	Rhaglen Dashfyrddau Pensiynau
Pwrpas:	Er gwybodaeth yn unig
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cyflwyniad

O ganlyniad i gofrestru awtomatig, mae mwy o bobl nag erioed bellach yn cynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Yn ogystal, mae newid ym mhatrymau gwaith pobl dros yr ychydig ddegawdau diwethaf yn golygu y gall pobl gronni cronfeydd pensiwn lluosog a all fod yn anodd eu holrhain.

Mae'r Rhaglen Dashfyrddau Pensiynau wedi'i chreu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (corff a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau), i ganiatáu unigolion gael mynediad at eu holl wybodaeth pensiynau yn ddiogel mewn un lle.

2. Beth yw dashfyrddau pensiynau?

Mae dashfyrddau pensiynau yn wasanaethau digidol—apiau, gwefannau neu offer eraill—y bydd aelodau yn gallu eu defnyddio i weld eu gwybodaeth pensiwn mewn un lle. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am eu Pensiwn Gwlad. Ni fydd dashfyrddau pensiynau yn dangos pensiynau sydd eisoes yn cael eu talu.

Bydd aelodau yn defnyddio dashfyrddau i chwilio cofnodion pob cynllun pensiwn i gadarnhau a yw'n aelod ai peidio. Byddant yn gallu gweld gwybodaeth eu hunain neu gallent awdurdodi trydydd parti cymwys i'w gweld.

Nod dashfyrddau yw helpu aelodau i gynllunio ar gyfer ymddeoliad drwy:

- dod o hyd i'w gwahanol bensiynau a'u hailgysylltu ag unrhyw gronfeydd pensiwn a gollwyd;
- deall gwerth eu pensiynau o ran incwm ymddeol amcangyfrifedig.

3. Pa wybodaeth y gall aelodau ei gweld ar ddashfyrddau pensiynau pan fyddant yn lansio?

Bydd y wybodaeth sydd ar gael ar ddashfyrddau yn dechrau gyda gwybodaeth syml debyg i'r hyn sydd eisoes ar gael i bobl ar ddatganiadau buddion blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys manylion pensiynau sydd wedi'u darganfod yn llwyddiannus, gan gynnwys enw'r darparwr y pensiwn, y ffordd orau o gysylltu â nhw a gwerth y pensiwn hwnnw.

Bydd aelodau eisiau gweld fwy o fanylion ar y ddashfyrddau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â'u hincwm tebygol ar ôl ymddeol, ond bydd angen ymgynghori ar heriau megis sut i gytuno ar set safonol o dybiaethau a chyfrifiadau yn gyntaf.

4. Sut bydd y dashfyrddau'n gweithio?

Disgwylir darparwyr dashfwrdd lluosog yn y farchnad. Bydd unigolion yn llywio i ddashfwrdd o'u dewis ac yn cyflwyno cais i weld eu gwybodaeth pensiynau. Bydd y dashfyrddau wedyn yn cyhoeddi ceisiadau electronig i bob cynllun pensiwn i chwilio am bensiwn yr unigolyn. Os canfyddir cofnod, mae'r cynllun yn dychwelyd y lleoliad i'r dashfwrdd, gan ganiatáu i'r

unigolyn weld ei fanylion pensiwn ar-lein. Lle gwneir darganfyddiad rhannol, bydd gan gynlluniau amserlen fer i ymchwilio a chadarnhau a yw'n cyfateb yn union, ac yna darparu manylion yn ôl yr angen.

5. Beth fydd y dashfyRDDau pensiynau yn ei olygu i awdurdodau gweinyddu a chyflogwyr y cynllun?

Yn fras, bydd yn rhaid i awdurdodau gweinyddol fodloni gofynion cofrestru gyda'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MAPS). Mae hyn yn golygu sicrhau cysylltiad ag ecosystem y dashfyRDDau, darparu gwybodaeth am gynlluniau penodol a phensiynau unigol fel rhan o "geisiadau canfod", a chadw cofnodion ar ystod o wybodaeth reoli am o leiaf chwe blynedd. Rhaid darparu hyn oll i MAPS, y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r FCA ar gais.

6. Pryd fydd yn rhaid i ni gysylltu â'r dashfwrdd?

Rhaid i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gysylltu â'r dashfwrdd erbyn 30 Medi 2025 (wedi symud o 30 Medi 2024).

7. Pa waith fydd ei angen i fod yn barod ar gyfer y dashfwrdd?


Bydd yn rhaid i ni benodi Darparwr Gwasanaeth Integredig (ISP) i gysylltu ag ecosystem y dashfwrdd pensiynau. Mae ein darparwr meddalwedd Heywood Pensions Technologies ar hyn o bryd yn datblygu ISP eu hunain y gellid ei ddefnyddio, ond bydd ISP eraill ar gael a bydd yn rhaid ystyried y rhain hefyd.

Unwaith y byddwn wedi cysylltu â'r dashfwrdd, bydd llawer o'r seilwaith technegol yn cael ei drin gan ein darparwr meddalwedd a bydd prosesu "ceisiadau canfod" o ddydd i ddydd gan unigolion yn cael eu hawtomeiddio. Serch hynny, mae digon o waith paratoi o hyd ar gyfer awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'u cyflogwyr. Mae'n debygol hefyd y bydd ymholiadau o ddydd i ddydd gan aelodau unwaith y bydd dashfyRDDau ar waith.

Y brif her i'r gronfa yw sicrhau bod y data sydd gennym ar y system yn gywir. Er ein bod yn sgorio'n uchel yn sgorau data cyffredin a chynllun penodol y Rheoleiddiwr Pensiynau, bydd yn rhaid i ni gydymffurfio â safon newydd, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r rhaglen dashfwrdd pensiynau.

Ar hyn o bryd mae gennym ôl-groniad o waith i'w wneud o ran ymadawyr heb eu prosesu. Mae'n arbennig o bwysig bod y rhain yn cael eu clirio cyn cysylltu ag ecosystem y dashfyRDDau. Mae adnoddau staffio ychwanegol wedi'u dyrannu i'r gwaith hwn dros y flwyddyn olaf a mae'r gwaith yn mynd ymlaen yn dda.

Mae'r graff isod yn dangos bod nifer yr ymadawyr heb eu prosesu wedi gostwng o tua 6,000 ym mis Medi 2022 i tua 3,500 ym mis Rhagfyr 2023:



8. Casgliad

Gyda bron i 2 flynedd i fynd nes bydd angen i ni gysylltu â'r dashfwrdd mae angen llawer o waith i sicrhau bod ein data o ansawdd uchel er mwyn i aelodau weld data cyflawn a chywir ar y dashfwrdd.

Y gobaith yw y bydd yr adnoddau ychwanegol a ddyrennir i'r prosiect hwn yn helpu i glirio'r ôl-groniad, ond bydd y gwaith hwn hefyd yn dibynnu ar gyflogwyr y cynllun i ddarparu data i ni er mwyn cau'r cofnodion ymadawyr heb eu prosesu.